MAWRTH 2018

# ER GWYBODAETH

Bwletin Chwarterol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## NAWDD AR GYFER OFFER LLIFOGYDD NEWYDD

Cychod modur a Phwmp Cyfaint Uchel i ymateb yn well i lifogydd

## HELPU DROS 1000 O BOBL

Carreg filltir bwysig i'r Tîm Cymorth Cymunedol

## BYWYD NEWYDD I HEN HELMEDAU

Cyflwyno helmedau tân i Bortiwgal

## CADETIAID YN HELPU I HYBU DIOGELWCH COGINIO

Rhoi eu sgiliau coginio crempogau ar brawf

ATAL / AMDDIFFYN / YMATEB

# PRYNU OFFER LLIFOGYDD AC ACHUB O DDŴR NEWYDD YN DILYN NAWDD GAN LYWODRAETH CYMRU

**Yn ddiweddar fe dderbyniodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nawdd gan Lywodraeth Cymru i adolygu ac uwchraddio offer i gefnogi criwiau yn ystod llifogydd ac wrth achub o ddŵr.**

Mae'r gwaith uwchraddio yn digwydd ar draws y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ac mae'n cynnwys dau gwch modur pwpmiadwy ynghyd ag offer gwarchod personol ar gyfer achub o ddŵr.

Mae'r nawdd hefyd wedi galluogi i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru brynu Pwmp Cyfaint Uchel newydd a fydd yn sicrhau mwy o gadernid yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae'r offer newydd yma'n cefnogi'r ddyletswydd statudol newydd sydd ar y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i achub o ddŵr.

Mae Darren Jones, Pennaeth Cefnogaeth Dechnegol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn egluro:

*"Daeth y broses gaffael ag arbenigwyr gyda'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol o'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ynghyd â phartneriaid o asiantaethau megis yr RNLI at ei gilydd.*

"Mae'r cychod modur newydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ein diffoddwyr tân; maent yn perfformio'n well yn ystod llifogydd sylweddol ac yn sicrhau mwy o gadernid, maent hefyd yn haws i'w trin ac mae angen llai o waith cynnal a chadw arnynt. Maent hefyd yn ystyried yr amgylchedd ac y fwy cadarn a gwydn er mwyn diogelu ein hymateb i lifogydd yng Nghymru i'r dyfodol."

Mae 16 o gychod modur a threlars wedi eu prynu dros Gymru – maent yn cynnwys dau gwch a fydd yn cael eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant a sicrhau cadernid i ddefnyddwyr. Bydd y cychod yma'n cael eu cadw yng Ngorsaf Dân Porthaethwy yn Ynys Môn.

Cyrhaeddodd y cychod ddiwedd mis Chwefror a bydd staff yn ymgyfarwyddo gyda'r offer yn ystod y misoedd nesaf.

Fe ychwanegodd Darren: "Roedd y profion yn cynnwys treialon heriol, a oedd yn golygu defnyddio'r gweithdrefnau a'r sgiliau trin cychod sy'n angenrheidiol yn ystod llifogydd. Roedd hyn y ffordd o sicrhau bod y cychod yn cwrdd â'r safonau uchaf posib fel y gallwn ddiogelu'r cyhoedd yn well wrth ymateb i alwadau am gymorth.

"Bydd ein pwmp cyfaint uchel yn gwneud yn siŵr bod gennym yr offer gorau posib yn rhanbarthol ac yn lleol i'n galluogi i ddelio gydag effeithiau llifogydd, fel y gwelwyd yn ystod digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

*"At eil gilydd mae'r arian yma wedi ein galluogi i brynu offer o'r radd flaenaf a fydd yn gwella ein hymateb i lifogydd yng Nghymru a gwella gallu a diogelwch ein personél, trwy roi'r adnoddau gorau posib i ni i'n helpu i amddiffyn cymunedau yng Nghymru."*

www.viewcreative.co.uk

# Y TÎM CYMORTH CYMUNEDOL WEDI HELPU DROS 1,000 ERS EI LANSIAD

**Mae'r galw ar wasanaeth y Tîm Cymorth Cymunedol yn parhau i gynyddu ers lansiad y fenter hon yn Awst 2016 i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi.**

Erbyn hyn mae'r Tîm Cymorth Cymunedol wedi helpu dros fil o bobl ers i'r gwasanaethau brys ddod at ei gilydd i lansio'r peilot yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Nod y fenter yw gostwng nifer y bobl sydd yn cael eu hanfon i'r ysbyty yn dilyn codwm, a thrwy hyn leddfu'r pwysau a'r galw ar y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaethau meddygol.

Mae tîm arbenigol yn cydweithio i ymateb i bobl fregus sydd wedi cael codwm yn y cartref. Mae'r tîm yn cynnwys aelodau staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedi eu hyfforddi'n llawn ac sydd gan y gallu i ddarparu gwasanaeth rhagorol a gwell profiad i'r claf.

Meddai Kevin Roberts, Uwch Reolwr Diogelwch Tân yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: "Rydym yn hapus iawn gyda datblygiad y fenter ac yn hynod falch o'r tîm am gynorthwyo dros fil o bobl.

*"Mae buddion amlwg o gydweithio gyda gwasanaethau brys a chyhoeddus eraill, a hynny yn nhermau arian parod ac mewn perthynas â darparu gwell gwasanaeth i'n cymunedau.*

"Trwy ymateb fel tîm arbenigol i godymau dianaf yn y modd hwn rydym yn gobeithio y gallwn leddfu rhywfaint o'r pwysau yn ogystal â darparu gwasanaeth gwell."

Meddai Liz Hughes, Rheolwr Gweithrediadau Ambiwlans yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru: "Mae'r Tîm Cymorth Cymunedol yn enghraifft berffaith o'r modd y gall y gwasanaethau ambiwlans gydweithio i wella gofal y claf a diogelu'r gymuned yn well.

*"Mae'r cynllun hefyd yn helpu i leihau nifer y bobl sydd yn gorfod mynd i'r ysbyty, ac mae hyn yn helpu i leddfu'r pwysau a'r galw ar y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaethau meddygol – mae mawr angen y gefnogaeth yma arnom yn enwedig yng nghanol cyfnod prysur y gaeaf.*

"Da iawn i'r tîm am helpu dros 1,000 o gleifion."

Meddai Mrs Eileen Harrop, a welodd y tîm yn cynorthwyo'i gŵr, Rodney: "Am Wasanaeth penigamp. Mae'n well nag aros am Ambiwlans. Roedd y tîm wedi ein cyrraedd ni mewn llai nag awr. Doedd dim angen ambiwlans arnom ni gan nad ydi Rodney erioed wedi cael araf wrth gwympo ac felly mae'n caniatáu i adnoddau hanfodol gael eu hanfon at alwadau blaenoriaeth uwch."

Mae'r fenter yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r tri gwasanaeth brys, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Glaw Gofal a Gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarth Gogledd Cymru.

Mae aelodau'r tîm yn gweithio patrwm sifft yn ystod y cyfnodau prysuraf rhwng 7am – 11pm. Maent yn ymateb mewn cerbyd sydd wedi ei frandio'n arbennig a chydag offer arbenigol angenrheidiol, gan gynnwys dyfeisiadau codi er mwyn codi cleifion yn ôl i safle eisteddog yn ddiogel.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei anfon trwy ystafell reoli'r Gwasanaeth Ambiwlans, ac felly nid oes yn rhaid i'r cyhoedd wneud dim byd yn wahanol, fodd bynnag bydd y Tîm Cymorth Cymunedol yn cael eu hanfon yn lle ambiwlans pan fydd hynny'n addas.

Mae'r fenter hon ac eraill eisoes wedi derbyn cydnabyddiaeth yng Ngwobrau Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru 2016 yn y categori 'Cydweithio' a oedd yn dathlu llwyddiant Tîm Prosiect Atal ac Ymateb y Tri Gwasanaeth.

# BYWYD NEWYDD I HEN HELMEDAU TÂN

**Mae hen helmedau tân o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael bywyd newydd ym Mhortiwgal, yn dilyn cais diweddar gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC).**

Cafodd yr helmedau eu cyflwyno i ddiffoddwyr tân ym Mhortiwgal drwy drefniant gan Raglen Cydnerthedd Cenedlaethol NFCC UK.

Mae Kevin Roberts, Uwch Reolwr Gweithrediadau yn egluro: “Fe wnaethom ni ymateb i apêl gan y rhaglen cydnerthedd a phenderfynu cyflwyno 400 o helmedau yn dilyn ein rhaglen adnewyddu helmedau yn ddiweddar.

Cafodd yr helmedau eu cyflwyno gan Kirsty Hayes, Llysgennad Prydain yn Lisbon, meddai: “Fe dioddefodd Portiwgal danau coedwig erchyll y llynedd. Roeddwn wedi fy syfrdanu gan y colledion i fywydau a’r dioddefaint a achoswyd i gymaint o’r boblogaeth yng nghanolbarth Portiwgal, ond roeddwn hefyd yn falch iawn o ddewrder ac ymrwymiad dynion a merched tân Portiwgal. Mae hon yn ardal hardd iawn sydd yn boblogaidd iawn ymysg Prydeiniwr sydd yn dewis ymgartrefu ym Mhortiwgal ac roeddwn yn teimlo bod gennyf i gyfrifoldeb dros sicrhau nad ydi digwyddiad trasig fel hyn yn digwydd eto.

*"Felly fe lansiom ble drwy raglen Cydnerthedd Cenedlaethol, NFCC UK. Roeddem wedi gwirioni gyda’r ymateb a gawsom gan Wasanaeth tân ac Achub Gogledd Cymru, a gynigodd roi helmedau i’w cymheiriaid yn rhanbarth Coimbra.*

“Roedd yn gynnig hael iawn ac un a gafodd ei werthfawrogi’n fawr. Roedd yn bleser gen i gael cyflwyno’r helmedau’n bersonol ar ran gwasanaeth tân ac achub gogledd Cymru.”

# GAIR I GALL GAN GADETIAID TÂN LLEOL AR DDYDD MAWRTH CREMPOG

**Roedd cadetiaid y gwasanaeth tân ac achub yn brysur yn hybu diogelwch coginio ar Ddydd Mawrth Ynyd ym mis Chwefror.**

Mae'n hawdd iawn i rywbeth dynnu'ch sylw wrth i chi goginio crempogau ac felly mae'n bwysig cadw diogelwch tân mewn cof. Fe all tanau cegin fod yn drychinebus ac maent yn achosi nifer uchel o anafiadau.

Meddai Neil Upton, Rheolwr Gwylfa: "Mae coginio crempogau yn llawer o hwyl i'r teulu cyfan ac maent yn bendant yn flasus iawn. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i amlygu bod 50% o'r holl danau damweiniol sy'n digwydd yn y cartref yn dechrau yn y gegin ac felly mae'n bwysig cymryd gofal, yn enwedig wrth goginio gydag olew poeth.

*"Ac ar ôl i chi orffen coginio, diffoddwch pob cyfarpar a chlirio'r ardal goginio.*

" Fe wnaeth cadetiaid o gangen Rhuthun ein helpu ni i hybu'r neges hon eleni, gan ddangos eu sgiliau rhagorol wrth iddynt fynd i ysbryd y diwrnod."

# SIÔN CORN I BOBL HŶN

**Fel rhan o Ymgyrch Nadolig  y Gwasanaeth, fe gymrodd staff o Gonwy a Sir Ddinbych ran yn y cynllun Siôn Corn i Bobl Hŷn a gafodd ei drefnu gan Home Instead, y gwasanaeth gofal i Bobl Hŷn. Dyma oedd yr ail dro i ni gymryd rhan yn y fenter yma a oedd mor llwyddiannus y llynedd.**

Fe weithiodd staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn partneriaeth gyda'r Groes Goch, Cyswllt gyda Phobl Hŷn ac Age Connect i ddosbarthu anrhegion i bobl hŷn a fyddai ar eu pen eu hunain dros gyfnod y Nadolig.

Yn ystod yr ymweliadau hyn llwyddodd y criwiau i gwblhau archwiliadau diogel ac iach a lle bo angen gosod larymau mwg yn nhai'r trigolion bregus hyn.



# GWERS LEM I ADDYSGU POBL IFANC AM GANLYNIADAU CYNNAU TANAU BWRIADOL

**Mae staff o'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i helpu i gyflwyno cyfres o weithdai i bobl ifanc am ganlyniadau cynnau tanau yn fwriadol.**

Mae'r gweithdy Cyfiawnder mewn Diwrnod yn weithdy addysgol deinamig a thrawsnewidiol gyda'r nod o atal pobl ifanc rhag troseddu a chodi ymwybyddiaeth am y system cyfiawnder troseddol a sgil-effeithiau negyddol troseddu.

Mae'r gweithdai'n cynnwys y DVD 'Llosgi Eich Dyfodol', ffilm di flewyn ar dafod a gomisiynwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd â sgwrs addysgol a sesiwn cwestiwn ac ateb.

*Meddai Tim Owen, Rheolwr y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, "Roedd hwn yn gyfle gwych i gyflwyno gweithdai addysgol i bobl ifanc bob dydd dros gyfnod o bum wythnos- rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosib oni bai bod gwahanol adrannau wedi dod at ei gilydd yn y modd hwn i rannu un neges gadarn sydd yn fwy tebygol o gael effaith cadarnhaol a hir dymor ar y gynulleidfa."*

# ENILLYDD EIN CYSTADLEUAETH NADOLIG!

**Fe gynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gystadleuaeth ar Facebook dros y Nadolig gyda'r nod o annog pobl i rannu negeseuon diogelwch tân pwysig.**

Roedd y gystadleuaeth yn rhan o ymgyrch ehangach i hybu diogelwch tân dros yr ŵyl, oherwydd ein bod ni'n cael ein galw at lawer iawn mwy o ddigwyddiadau dros y cyfnod hwn.

Sarah McKenzie oedd yn fuddugol ac fe gyflwynwyd hamper siocled iddi yng Ngorsaf Dan Gymunedol y Rhyl.

Fe gymrodd dros 800 o bobl ran yn y gystadleuaeth drwy gydol mis Rhagfyr, ac fe helpodd hyn y Gwasanaeth i gyrraedd miloedd o gyfrifon Facebook er mwyn rhannu ein negeseuon diogelwch megis cofio diffodd Goleuadau Nadolig, peidio ag yfed a choginio a gofalu am bobl oedrannus dros y gaeaf.

# CEFNOGI DIWRNOD BYDD HAPUS 2018

**Fe gymrodd staff ran mewn teithiau cerdded i gefnogi 'Diwrnod Bydd Hapus' ym mis Ionawr.**

Yn ôl yr ystadegau swyddogol mae Cymru y tu ôl i weddill y DU yn nhermau lefelau hapusrwydd. I fynd i'r afael â hyn mae BBC Cymru wedi bod yn hybu 'Diwrnod Bydd Hapus' eleni gan apelio ar sefydliadau i gefnogi'r fenter.

Mae Chelsey Hughes yn egluro mwy: "Roedd yn braf cael cymryd rhan yn y fenter hon i hybu pwysigrwydd hapusrwydd a bod yn iach yn feddyliol.

*" Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio 'Iechyd Meddwl' fel cyflwr lle mae'r unigolyn yn ymwybodol o'i allu/gallu, gallu ymdopi gyda phwysau beunyddiol bywyd, gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu i'w gymuned ef neu hi'.*

"Fe all gweithgareddau corfforol effeithio ar eich llesiant meddyliol - trwy wneud dim ond 10 munud o ymarfer corff ar y tro gallwch gynyddu'ch lefelau egni, gwella'ch hwyliau a bod yn fwy effro. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd modd i ni ei gynnwys i'n diwrnod gwaith arferol yn hawdd iawn."


ATAL AMDDIFFYN YMATEB

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Oeddech chi'n gwybod bod Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ar gael at ddefnydd y cyhoedd?

Ydych chi wedi meddwl am ddefnyddio ein hadnoddau?
Gallwch gynnal eich cyfarfod neu'ch cwrs hyfforddi yma
Rydym yn croesawu pobl leol a sefydliadau

Gellir llogi ystafell am gyn lleied â £7 yr awr

Mae ein hadnoddau yn cynnwys;
- Ystafelloedd cyfarfod mawr a bach i gwrdd ag anghenion pawb - mae uwchdaflunyddion ymhob ystafell
- Wi-fi am ddim
- Parcio am ddim
- Agos at lwybrau trafnidiaeth cyhoeddus
- Man i wylio ein diffoddwyr tân wrth eu gwaith

Dyma'r cyfleuster pwrpasol cyntaf o'i fath yng Nghymru - meithrin cyswllt gyda'r gymuned leol a hybu diogelwch tân

Galwch ni ar 01745 352 722 neu ewch i www.gwastan-gogcymru.org.uk